# Cyfarwyddyd Hysbysiad Preifatrwydd o dan GDPR

## Enw a manylion cyswllt y Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i warchod hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â hwy trwy dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

## Pa wybodaeth fyddwn ni'n casglu amdanoch chi?

Byddwn yn casglu gwybodaeth fydd yn ein helpu i benderfynu os gallwch chi ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym eu hangen, ac y gellir ei ddefnyddio i reoli unrhyw gytundeb y gallem ei ddyfarnu ichi. Mae'r wybodaeth y byddwn yn ei gasglu fel a ganlyn:

Eich enw
Cyfeiriad busnes
Cyfeiriad gwefan
Rhif y Cwmni
Rhif DUNS
Rhif cofrestru TAW
Rhif ffôn y Busnes
Rhif ffôn symudol
Cyfeiriad e-bost
Hyfforddiant, Cymwysterau ac Achrediadau
Profiad gwaith
Addysg ac aelodaeth o gyrff Proffesiynol
Enw(au) eich is-gontractwr/wyr (os yw'n berthnasol)
Enw(au) unrhyw aelodau Consortiwm
Enw(au) eich gweithiwr/wyr cyflogedig sydd ynghlwm â throsglwyddo'r cytundeb
CV eich staff allweddol sydd ynghlwm â throsglwyddo'r cytundeb
Enw(au) gweithiwr/wyr cyflogedig CNC y mae gennych berthynas â hwy
Enw(au) eich cwsmer(iaid) blaenorol o'r 5 mlynedd diwethaf

## Sut gaiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

Fe ddefnyddiwn y wybodaeth a roddwch inni mewn nifer o ffyrdd:

- I werthuso unrhyw ddyfynbris neu dendr a gyflwynwch
- I gasglu tystlythyrau oddi wrth eich cwsmeriaid eraill
- I wirio unrhyw wrthdaro buddiannau
- I warchod cyllid cyhoeddus
- I'n galluogi i reoli unrhyw gytundeb y gallwn ei ddyfarnu ichi

- I'n helpu i ddadansoddi ein cyflenwyr
- Ar gyfer ymchwil farchnata
- I'ch gwahodd i ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr
- I'ch gwahodd i dendro mewn Gweithdrefn Gyfyngedig
- I'ch hysbysu am gyfleoedd tendro/contract allai fod o ddiddordeb ichi
- Ar gyfer adrodd am gontractau i Lywodraeth Cymru a / neu Gomisiwn yr UE
- At ddibenion archwilio

## Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Rydym yn casglu eich gwybodaeth oherwydd bod angen inni wneud hynny er mwyn cael contract gyda chi.

"Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ***contract*** gyda thestun y data."

## Pwy fydd yn derbyn eich gwybodaeth?

Fel rhan o'r broses caffael, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag:

- Aelodau'r Tîm Caffael
- Rheolwr y Contract
- Panel Gwerthuso'r Tendr
- Ein Hadran Gyllid
- Rhanddeiliaid mewnol allweddol, yn cynnwys ein Hadran Gyfreithiol, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd
- Asiantaethau gwirio credyd
- Defnyddwyr y Contract
- Unigolion/Cwmnïau eraill sy'n Tendro
- Sefydliadau sector cyhoeddus eraill
- CThEM
- Tŷ'r Cwmnïau
- Llywodraeth Cymru, a / neu Gomisiwn yr UE
- Gwefan GwerthwchiGymru, trwy gyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd
- Archwilwyr

Mae rhaid i CNC gydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Mae hyn yn golygu bod rhaid inni rannu gwybodaeth benodol os gofynnir inni wneud hynny o dan y Rheoliadau hyn. Fyddwn ni ond yn rhannu gwybodaeth y mae rhaid inni ei rannu ac y credwn sydd ddim yn fasnachol sensitif. Os gofynnir inni ddarparu gwybodaeth allai niweidio eich buddiannau masnachol, fe ofynnwn ichi i ddechrau.

## Unrhyw drosglwyddiadau i wledydd eraill a'r trefniadau diogelu sy'n eu lle

Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae rhaid inni gyhoeddi'r ffaith ein bod wedi dyfarnu contract ichi ar wefan GwerthwchiGymru, ac weithiau yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Gan fod y wybodaeth yma ar gael i'r cyhoedd gall fod ar gael yn eang.

Byddem ond yn cyhoeddi eich enw masnachu a manylion sylfaenol y contract.

## Am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth?

Cedwir eich gwybodaeth yn unol â pholisi Cadw Cofnodion CNC. Mae angen y cyfnod cadw hwn at ddibenion archwilio a rhag ofn y ceir apeliadau ac ymgyfreitha.

Y cyfnod cadw safonol ar gyfer tendrau/contractau yw:

Ar gyfer pobl sy'n tendro'n llwyddiannus - 7 mlynedd o ddyddiad cwblhau'r contract

Ar gyfer pobl sy'n tendro'n aflwyddiannus – 2 flynedd o ddyddiad dyfarnu'r contract

Ar gyfer tendrwyr a ariennir gan yr UE - isafswm o 14 mlynedd wedi cwblhau'r prosiect (a phan gaiff dinistrio dogfennau ei awdurdodi gan WEFO)

## Beth yw eich hawliau unigol?

**Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i brosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i ddileu *, i gyfyngu a danfon eich gwybodaeth bersonol. Ymwelwch â'n gwe-dudalennau Diogelu Data <http://www.swansea.ac.uk/the-university/world-class/vicechancellorsoffice/compliance/dataprotection/dataprotectionpolicy/> am fwy o wybodaeth ynghylch eich hawliau.**

*Sylwer na ellir dileu eich gwybodaeth yn ystod y cyfnod cadw a nodir uchod.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data CNC: -

**E-bostiwch – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

## Diogelu eich gwybodaeth

Yn ystod y broses caffael cedwir eich data'n gyfrinachol yn ein system e-dendro, a chyfyngir mynediad i'r system hon i staff awdurdodedig yn unig. Mae tendrau a gynhelir trwy'r post yn brin, ond yn yr achos hwn byddai eich data'n cael ei gadw mewn lleoliad diogel yn un o swyddfeydd CNC, a byddai mynediad i'r data yma'n cael ei gyfyngu i'r aelodau hynny o staff sydd â hawl i gael mynediad iddo.

Os byddwn yn dyfarnu contract ichi, caiff eich enw a'ch manylion cyswllt eu rhannu fel rhan o weithdrefnau rheoli contract a thrwy gyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract ar wefan GwerthwchiGymru, neu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

## Sut i gwyno

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd y cafodd eich data personol ei brosesu gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu gyda Swyddog Diogelu Data CNC gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, yna mae gennych hawl ymgeisio'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF

**www.ico.org.uk**